| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **16 Gorffennaf 2015** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol: Cymdeithasol Mewnol/** | **Cadeirydd: Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol** |
| **Teitl:** | **Dyfodol Gwasanaethau Gofal Mewnol** |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn rhoi canlyniadau cam cyntaf y broses ymgynghori i’r Aelodau ynghylch gwasanaethau gofal cymdeithasol mewnol, h.y. y wybodaeth a gasglwyd o adolygiadau unigolion a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys argymhellion i'r Cabinet ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol gyda'r holl randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Galluogi Aelodau’r Pwyllgor Craffu i roi sylwadau ar y wybodaeth a gasglwyd a'r argymhellion dilynol gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr opsiynau i'w cyflwyno i'r Cabinet ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol â'r holl randdeiliaid.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n ystyried yr adroddiad a'r dogfennau ategol ac yn rhoi sylwadau ar y gyfres o ddewisiadau i’w hargymell i'r Cabinet.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Ar 20 Mawrth 2014, cytunodd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad y dylid sefydlu grŵp Tasg a Gorffen Aelodau i “archwilio gwerth am arian opsiynau i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel yn y Sir”.

4.2 Datblygodd y Grŵp werthusiad opsiynau ar gyfer pob un o’r gwasanaethau mewnol a drafodwyd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 2 Hydref 2014, a’r Cabinet ar 16 Rhagfyr 2014, a gytunodd ar y canlynol:

(a) yn unol â'r fframwaith statudol priodol, ymgynghori â phob defnyddiwr gwasanaeth unigol a'u teulu o ran y cynigion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad i gynnwys asesiad o'u hanghenion ac argaeledd darpariaeth arall addas i ddiwallu'r anghenion hynny;
(b) cynnal ymarfer ymgynghori cyhoeddus ehangach ar foderneiddio gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol;
(c) cyflwyno adroddiad/adroddiadau ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau y cyfeirir atynt yn (a) a (b) uchod i'r Grŵp Tasg a Gorffen cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet gydag arfarniad opsiynau ar gyfer pob un o'r gwasanaethau, a
(d) bod y Cabinet yn cadarnhau na fydd unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth unigol yn cael ei symud oni bai bod darpariaeth arall addas yn cael ei nodi.

4.3 Ym mis Ionawr 2015, cytunodd CET ar y fethodoleg ar gyfer asesu anghenion unigolion a chasglu eu barn ar ddyfodol y gwasanaeth yn ogystal â’r cylch gorchwyl a'r amserlenni ar gyfer yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, cafwyd cyngor gan y sefydliad ymgynghori ynghylch y fethodoleg ac eglurodd hyn bod y cam cyntaf, h.y. asesu anghenion unigolion, mewn gwirionedd yn ymarfer casglu er mwyn llywio ymgynghoriad

priodol, gyda'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ail gam i'w gytuno gan y Cabinet yn seiliedig ar y wybodaeth honno.

4.4 Bydd yr Aelodau'n sylwi bod yr awgrymiadau gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen isod yn dangos yn glir bod yr asesiadau a safbwyntiau unigolion a theuluoedd wedi'u hystyried (gweler Atodiad 1 am adborth yr adroddiad) wrth gynnig atebion sy'n canolbwyntio ar foderneiddio darpariaeth gwasanaethau drwy fodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru a'r boblogaeth ehangach o ran sut mae gofal modern a chymorth yn edrych fel, ar yr un pryd â chanolbwyntio adnoddau tuag at y meysydd lle mae’r galw uchaf tra hefyd yn cyflawni’r arbedion gofynnol.

4.5 Mae canlyniadau'r wybodaeth a gasglwyd fel a ganlyn:

4.5.1 Hafan Deg, Y Rhyl

Edrychodd yr aseswyr ar ystod o feini prawf ar gyfer y 24 o unigolion sy’n mynychu Hafan Deg rhwng 1 a 3 diwrnod yr wythnos ar hyn o bryd, a gwelwyd bod y rhan fwyaf o unigolion angen cymorth lefel canolig neu uchel. Mae’r adroddiad ynghlwm fel Atodiad 2.

Yn lleol, ceir amrywiaeth o ddewisiadau amgen cymunedol presennol sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan rai unigolion yn ogystal â nifer o gartrefi gofal preswyl sy'n cynnig gofal dydd, er bod hynny ar sail ad hoc ar hyn o bryd. Er bod y rhan fwyaf o unigolion o'r farn na fyddent yn dymuno defnyddio gwasanaethau eraill, mae dewisiadau amgen ar gael a fyddai'n diwallu eu hanghenion. Byddai hefyd yn bosibl contractio ar gyfer gwasanaeth pwrpasol a fyddai'n galluogi i’r unigolion hynny sydd angen y lefel honno o ofal barhau i gwrdd â’u ffrindiau gyda’i gilydd.

**Yr awgrym ar gyfer Hafan Deg yw ymuno mewn partneriaeth â sefydliad allanol a throsglwyddo’r adeilad iddyn nhw, gan gomisiynu gwasanaeth gofal dydd yn yr adeilad ac, yn ogystal, galluogi i asiantaethau trydydd sector ddarparu gweithgareddau ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl hŷn, a fyddai'n lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, yn cefnogi annibyniaeth ac yn hybu gwydnwch.**

Byddai hyn yn galluogi i’r adeilad barhau i gael ei ddefnyddio er lles pobl hŷn yn y Rhyl, gan gynnwys y rhai ag anghenion lefel isel sy'n mynychu ar hyn o bryd, tra'n cefnogi’r egwyddor o hybu annibyniaeth a galluogi i’r grŵp presennol o ddefnyddwyr gwasanaeth barhau i fynychu gyda'i gilydd, gyda'r un grŵp o staff. Byddai arbediad refeniw o £100k ar y costau rhedeg cyfredol.

4.5.2 Dolwen, Dinbych

Edrychodd yr aseswyr ar ystod o feini prawf ar gyfer y 22 o unigolion sydd ar hyn o bryd yn y cartref gofal preswyl 30 gwely safonol, gan gynnwys y Gymraeg, dewisiadau amgen sydd ar gael a'r berthynas gyda'r gymuned leol. Gellir gweld yr adroddiad, a ddangosodd y byddai’r rhan fwyaf o bobl yn cael eu heffeithio i ryw raddau pe baent yn symud, yn Atodiad 3.

Mae 13 o welyau preswyl safonol gwag sydd bellter rhesymol o Dolwen ac nid oes unrhyw welyau Gofal Henoed Eiddil eu Meddwl na gwelyau nyrsio gwag.

**Yr awgrym ar gyfer Dolwen yw ymuno mewn partneriaeth â sefydliad allanol a throsglwyddo’r gwasanaeth cyfan iddynt, tra’n cofrestru ar gyfer gofal henoed eiddil eu meddwl.**

Byddai hyn yn sicrhau y gallai unigolion sy'n byw yno barhau i wneud hynny, gan gael eu cefnogi gan yr un staff fel y maent ar hyn o bryd a chael mynediad at y gymuned leol cymaint ag y maent yn ei wneud nawr. Byddai arbediad refeniw o £200k ar gost y 22 o

unigolion presennol a £75K ar gostau cynnal a chadw oherwydd byddai'r darparwr newydd yn cael ei gomisiynu gan ddefnyddio cyfraddau safonol.  Fodd bynnag, mae hyn yn golygu ei bod yn annhebygol y byddai derbyniad cyfalaf oherwydd byddai angen i'r darparwr newydd wario llawer o arian i sicrhau bod yr adeilad yn bodloni'r safonau gofynnol.  Byddai hefyd yn datblygu lefel o ddarpariaeth henoed eiddil eu meddwl yn yr ardal, ardal sydd â galw cynyddol.  Bydd cynlluniau ar gyfer datblygu Tai Gofal Ychwanegol yn y dref yn parhau.

4.5.3 Awelon, Rhuthun

Edrychodd yr aseswyr ar ystod o feini prawf ar gyfer y 20 o unigolion sydd ar hyn o bryd yn y cartref gofal preswyl 26 gwely safonol, gan gynnwys y Gymraeg, dewisiadau amgen sydd ar gael a'r berthynas gyda'r gymuned leol.  Mae'r adroddiad, a ddangosodd y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu heffeithio i ryw raddau pe baent yn symud, ynghlwm yn Atodiad 4.

Mae 8 o welyau nyrsio gwag ac 8 o welyau gofal preswyl safonol gwag sydd bellter rhesymol o Awelon.

**Yr awgrym ar gyfer Awelon yw atal derbyniadau newydd a gweithio gyda'r unigolion a'u teuluoedd ar gyflymder sy'n eu siwtio nhw i'w symud i ddewisiadau amgen addas fel y bo'n briodol ac i ymuno mewn partneriaeth â pherchennog Llys Awelon i ddatblygu mwy o fflatiau Gofal Ychwanegol ar y safle.**

Byddai hyn yn sicrhau bod unigolion sy'n byw yno yn cael digon o amser i ddod o hyd i ddarpariaeth amgen priodol ac y gellir bodloni'r galw am ofal ychwanegol yn Rhuthun (mae 50 o bobl yn aros ar hyn o bryd).  Byddai gofyniad ar y landlord i sicrhau y byddai'r gweithgareddau cymunedol a ddarperir ar hyn o bryd yng Nghanolfan Awelon yn parhau. Byddai arbediad refeniw o £300k ar gost y 20 o unigolion, yn ogystal â £165k ar gostau cynnal a chadw.

4.5.4 Cysgod y Gaer, Corwen

Edrychodd yr aseswyr ar ystod o feini prawf ar gyfer yr 11 o unigolion sydd ar hyn o bryd yn y cartref gofal preswyl 23 gwely safonol, gan gynnwys y Gymraeg, dewisiadau amgen sydd ar gael a'r berthynas gyda'r gymuned leol.  Gellir gweld yr adroddiad, a ddangosodd y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu heffeithio i ryw raddau pe baent yn symud, yn Atodiad 5.

Nid oes yr un gwasanaeth preswyl amgen i Cysgod y Gaer sydd bellter rhesymol oddi wrtho.

**Yr awgrym ar gyfer Cysgod y Gaer yw ymuno mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol (gan gynnwys Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r 3ydd sector) i ddatblygu'r safle yn 'ganolfan cymorth' gan gynnig cyfleusterau preswyl a gofal ychwanegol, yn ogystal â gofal cartref allgymorth a gwasanaeth cymorth i denantiaid Cynlluniau Tai Gwarchod lleol a phoblogaeth ehangach Corwen a'r ardal gyfagos.**

Byddai hyn yn sicrhau y gall yr unigolion sy'n byw yn Cysgod y Gaer ar hyn o bryd barhau i wneud hynny, ond byddai hefyd yn datblygu gwasanaethau sy'n cefnogi annibyniaeth a gwell canlyniadau i eraill yn yr ardal leol.  Er na fyddai hyn yn arwain at arbedion ar unwaith, byddai'n dwyn ynghyd elfennau o ofal cartref allanol gyda gwasanaethau preswyl, gan greu cynnig cefnogaeth gyfannol i ardal galw isel yn llawer mwy cost effeithiol.  Gall hyn arwain at arbedion ar gostau cyfredol gofal cartref allanol.

4.5.5 Cynlluniau Gofal Ychwanegol (Prestatyn, Y Rhyl a Rhuthun)

Mae’r 3 Chynllun Gofal Ychwanegol yn eiddo i Gymdeithasau Tai ac mae tenantiaid unigol yn talu eu costau rhent a rheoli yn uniongyrchol iddynt hwy. Mae gan bob cynllun hefyd dîm gofal cartref ar y safle a gaiff eu staffio gan weithwyr y Cyngor.

Cynhaliwyd sgyrsiau gyda’r tenantiaid hynny sy'n derbyn gofal cartref i gasglu eu barn ar drosglwyddo’r staff gofal cartref i asiantaethau allanol. Yr adborth cyffredinol yw, os byddai hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth o ofal gan aelodau unigol o staff yn barhaus ac na fyddai’n tarfu ar unigolion gofal a chymorth o gwbl, yna byddai’r rhan fwyaf o unigolion yn gyfforddus â hynny.

**Yr awgrym ar gyfer y 3 chynllun yw i dendro am ddarparwr gofal ar gyfer pob un ohonynt ac ymgynghori’n ffurfiol â staff sy'n ymwneud â’r broses drosglwyddo cyflogaeth. Nid oes angen ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol o ran hyn gan ei fod yn golygu newid darparwr yn unig ac nid newid y gwasanaeth.**

Mae gan hyn y fantais o sicrhau parhad gofal ar gyfer unigolion a, gan ganiatáu ar gyfer costau asiantaeth uwch nag arfer i ganiatáu ar gyfer y telerau ac amodau presennol, mae dal yn bosibl y gwneir arbedion o £80k.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol modern megis Tai Gofal Ychwanegol yn cefnogi'r flaenoriaeth i alluogi i bobl fyw mor annibynnol â phosibl.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae cyfanswm yr arbedion a nodwyd yn yr awgrymiadau uchod yn cyfateb i £680k dros 2 flynedd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Dim ond yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol y gellir cwblhau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn. Fodd bynnag, mae’r ymarfer casglu gwybodaeth wedi dangos y byddai effaith negyddol ar lawer o unigolion hŷn pe bai angen iddynt symud o’u gwasanaethau presennol.

Fodd bynnag, byddai gwasanaethau amgen modern yn lliniaru unrhyw effaith negyddol bosibl ar grwpiau o’r boblogaeth sydd â nodweddion gwarchodedig.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Gofynnwyd am yr adolygiad o wasanaethau gan yr adran Craffu Perfformiad ac fe'i cynhaliwyd gan Aelod o’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd a gellir gweld y canlyniadau hyn yn Atodiad 1.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae’r opsiynau sydd yn yr adroddiad hwn yn ffurfio rhan o Gynigion Arbedion Cyllideb Rhyddid a Hyblygrwydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17. Gall methu â mynd ati â’r cynigion olygu na fydd yr arbedion posibl a glustnodwyd yn cael eu gwireddu ac felly byddai angen eu disodli gan gynigion amgen.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae risgiau i’r arbedion gofynnol pe na bai’r opsiynau uchod yn cael eu gweithredu yn y pen draw.

Mae risg hefyd o adolygiad barnwrol os gwneir newidiadau heb ymgynghori'n ddigonol. Gellir lliniaru hyn gan ddefnyddio cymorth y Sefydliad Ymgynghori i gynnal ymgynghoriad trwyadl, pe bai’r Cabinet yn cytuno i hyn.

Mae risgiau hefyd i iechyd a lles unigolion sy'n agored i niwed pe baent yn cael eu symud o'u gwasanaethau presennol.

Yn olaf, mae risgiau i ddarpariaeth gwasanaethau modern yn y dyfodol sy'n cefnogi annibyniaeth os na chymerir y camau gweithredu hyn.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae erthygl 6.3.2(b) yn amlinellu pwerau craffu o ran gwneud adroddiadau a/neu argymhellion i’r Cyngor a/neu’r Cabinet mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau.

**Swyddog Cyswllt:**
Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol
Ffôn: 01824 706554